

Polisi mynediad i'r Rhyngrwyd

1. Cyflwyniad

Darperir Llyfrgelloedd Gwynedd fynediad i'r rhyngrwyd a thechnoleg gwybodaeth er mwyn cefnogi anghenion addysgiadol, diwylliannol ac adloniannol y gymuned.

Y Rhyngrwyd

Mae'r rhyngrwyd yn cynnig mynediad i adnoddau gwybodaeth ar sawl fformat. Nid yw Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd yn gwrthod mynediad cyfreithiol at wybodaeth i unrhyw aelod o'r cyhoedd, ond mae'n cydnabod gall yr adnodd fod yn agored i'w gamddefnyddio. Mae'r Polisi hwn wedi ei gynhyrchu er mwyn diogelu buddiannau'r gwasanaeth.

Adolygir y polisi hwn yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn parhau'n briodol a pherthnasol.

2. Y Rhyngrwyd a'ch Cyfrifoldeb Chi

Mae'r rhyngrwyd yn cynnwys gwybodaeth gwerthfawr a diddorol; serch hynny, gall peth o'r wybodaeth yma fod yn anghywir, yn hen, yn ddadleuol, yn annymunol ac/neu yn anghyfreithlon.

Ni dderbynia Llyfrgelloedd Gwynedd unrhyw gyfrifoldeb am ansawdd, cywirdeb nac argaeledd y wybodaeth a geir drwy gyfrwng y rhyngrwyd, er bydd y Gwasanaeth yn ceisio cyfeirio at safleoedd sy'n ymddangos yn awdurdodol.

Fel defnyddiwr, felly, eich cyfrifoldeb chwi yw sicrhau cywirdeb yr wybodaeth a ddarganfyddwch.

Nid yw Llyfrgelloedd Gwynedd yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw golled, difrod neu niwed, uniongyrchol neu anuniongyrchol, a ddioddefir fel canlyniad i ddefnyddio'r adnoddau cyfrifiadurol yma.

3. Amodau Mynediad

Aelodaeth

Mae mynediad i gyfrifiaduron ar gael i bawb. Bydd rhaid i ddefnyddwyr dros 18 oed nad ydynt yn aelodau o'r Llyfrgell ddangos dogfen adnabyddiaeth foddhaol (trwydded yrru, pasbort, cerdyn adnabod).

Bydd angen i bob defnyddiwr dicio eu bod wedi darllen a deall polisi'r Llyfrgelloedd Gwynedd ar ddefnydd derbyniol o gyfrifiaduron, ac yn cytuno i gydymffurfio a'r telerau ac amodau.

Plant a Phobl Ifanc

Caniateir i blant iau nag 8 mlwydd oed gael mynediad i'r rhyngrwyd, dim ond os oes rhiant neu ofalwr gyda hwy.

Caniateir mynediad i'r rhyngrwyd i bobl ifanc rhwng 8 a 17 mlwydd oed, ond rhaid bod rhiant neu ofalwr wedi cytuno i hyn wrth arnodi cais y plentyn am aelodaeth o'r Llyfrgell.

Eitemau Hwyr / Dirwyon

Gellir cadw'r hawl i beidio caniatáu mynediad i'r rhyngrwyd i unrhyw aelod sydd gyda eitemau hwyr neu ddirwyon. Fe ganiateir mynediad unwaith y bydd eitemau wedi eu dychwelyd a/neu fod y dirwyon wedi ei talu. Ar gyfer plant/phob ifanc o dan 18 oed, y rhiant/gwarcheidwad fydd gyda'r cyfrifoldeb i sicrhau nad oes eitemau hwyr ar eu cyfrifon.

Cost

Bydd pob mynediad i gyfrifiadur yn rhad ac am ddim i bobl sy'n gallu dangos cerdyn aelodaeth o lyfrgell yn y Deyrnas Unedig, ond codir ffi o £2:50 y sesiwn ar rai heb gerdyn aelodaeth. Codir tâl rhesymol am allbrintio eitemau. Arddangosir y costau yma yn eglur gan y Llyfrgelloedd Gwynedd.

Rhag-archebu sesiwn gyfrifiadurol

Gellir rhag-archebu sesiynau o flaen llaw, hyd at 7 niwrnod, drwy'r teleffon, ar-lein drwy gyfrwng e-bost, neu drwy alw yn y llyfrgell.

Gellir rhag-archebu sesiynau fesul cyfnod o awr, gyda mwyafswm o ddwy sesiwn ddilynol. Os nad oes llawer o ofyn am y cyfrifiaduron ar unrhyw bryd, gellir ymestyn sesiwn.

Ni fydd Llyfrgelloedd Gwynedd na Chyngor Gwynedd yn atebol pe bai'r cysylltiad i'r rhwydwaith yn dioddef ymyriad, neu'n torri lawr, am ba bynnag reswm.

Yn dibynnu ar gaffaeledd, bydd rhai cyfrifiaduron ar gael heb fod angen rhag-archebu.

4. Eich Sesiwn

Pryd bynnag bosib, fe wnaiff staff y llyfrgell ymdrech i helpu pobl wneud defnydd iawn o'r cyfrifiaduron. Fodd bynnag, fel y bo'r galw am fynediad i gyfrifiaduron yn cynyddu, ni fydd staff wastad yn gallu rhoi sylw digonol.

Mae'r gallu gan Wasanaeth Llyfrgell Gwynedd i fonitro mynediad i safleoedd rhyngwyd, a bydd gweithredu'n dilyn/neilltuwn yr hawl i derfynu/gwrthod mynediad os darganfyddir bod aelod o'r cyhoedd wedi cael mynediad i ddefnydd anghyfreithlon, annymunol neu ddadleuol.

Mae awdurdodau lleol yn diogelu'r hawl i fonitro a chofnodi pob math o weithred a wneir ar y rhyngwyd, gan gynnwys e-bost. Gellir gwneud y monitro hyn mewn dull electronig neu uniongyrchol.

Hunanwasanaeth

Mae angen rhif aelodaeth rhif PIN gan ddefnyddwyr i fewngofnodi a defnyddio cyfrifiaduron llyfrgell sydd wedi eu dynodi â system hunanwasanaeth. Mae pob sesiwn wedi ei gyfyngu i awr o hyd. Os nad oes llawer o ofyn am y cyfrifiaduron ar unrhyw bryd, gellir ymestyn sesiwn.

Mae gan blant/pobl ifanc o dan 18 oed yr hawl ddefnyddio'r system hunanwasanaeth ac eithrio'r cyfrifiaduron hunanwasanaeth yn Llyfrgelloedd Bangor a Chaernarfon oherwydd lleoliad y cyfrifiaduron a diffyg goruchwyliaeth addas gan staff. Noder mai meddalwedd hidlo ar gyfer oedolion sydd ar y cyfrifiaduron hynny a cheisir monitro'r defnydd o safbwynt defnydd addas.

Nid oes system hunanwasanaeth ar unrhyw gyfrifiadur sydd wedi ei dynodi ar gyfer plant a phobl ifanc.

Mae system hunanwasanaeth ar gael ym mhob llyfrgell.

5. Diogelwch a Diogelu Data

Hidlo

Defnyddir meddalwedd hidlo mewn ymgais i wahardd defnydd o'r rhyngwyd sydd yn annymunol ac o bosib yn anghyfreithlon.

Gwefannau sy'n cael eu gwahardd:

- Deunydd Rhywiol a Phornograffig
- Sgwrsio Cyffuriau,
- Alcohol a Thybaco
- Gamblo
- Hacio Hyrwyddo
- Casineb
- Torri drwy raglen gwrthod mynediad
- Trais
- Arfau

Fodd bynnag, fe all mecanweithiau hidlo, o bryd i'w gilydd, wahardd deunydd sy'n berffaith dderbyniol.

Mae Llyfrgelloedd Gwynedd yn fodlon cysidro dad-wahardd unrhyw safle o'r fath, wedi gwirio'n ofalus. Ar y llaw arall, fe all ar achlysuron i'r meddalwedd fethu â gwahardd deunydd amhriodol. Ni fydd Cyngor Gwynedd na Llyfrgelloedd Gwynedd yn atebol am unrhyw ofid a achosir yn y modd hwn.

Mae lefel mwy caeth o hidlo ar y cyfrifiaduron hynny sydd wedi eu clustnodi'n arbennig ar gyfer defnydd plant /pobl ifanc o dan 18 oed. Serch hynny, gellir caniatáu i blant/pobol ifanc dan 18 ddefnyddio cyfrifiadur oedolion. Byddwn yn cymryd camau priodol i sicrhau monitro cyson o safbwynt defnydd addas a diogel.

Bydd meddalwedd gwrth-feirws yn rhedeg ar bob cyfrifiadur.

Bydd meddalwedd glanhau-disg yn rhedeg ar bob cyfrifiadur; fel canlyniad, ni ellir cadw dogfennau ar ddisg galed y cyfrifiaduron.

Ni chaniateir i ddefnyddwyr lawrlwytho eu meddalwedd eu hunain, na chysylltu eu hoffer cyfrifiadurol eu hunain i offer cyfrifiadurol y llyfrgell.

Bydd eich data personol, sef y data sy'n cyd-fynd gyda'ch cerdyn aelodaeth llyfrgell, yn cael ei rannu gyda InsightMedia, y cwmni sy'n gweinyddu'r meddalwedd (iCAM) sy'n caniatáu llogi cyfrifiaduron cyhoeddus.

Bydd data gweithredol yn cael ei gadw am gyfnod o 3 blynedd cyn y bydd yn cael ei ddileu yn gyfangwbl.

Bydd data personol yn cael ei gadw am 24 mis cyn y bydd yn cael ei wneud yn ddata na ellir ei adnabod fel data personol (anonymised).

6. Defnyddiau Gwaharddedig

Gwaherddir rhai defnyddiau o'r cyfrifiaduron. Y rhain yw:

- Caffael, arddangos neu ddsbarthu unrhyw ddeunydd y gellid ei ystyried yn anllad, annymunol neu ddifriol.
- Cynnal busnes ar-lein.
- Dosbarthu hysbysebion na ofynnwyd amdanynt.
- Ceisio cael mynediad anawdurdodedig i gyfrifiaduron, neu rwydweithiau, eraill.
- Newid trefn gosod y cyfrifiaduron, neu'r meddalwedd a redir arnynt.

Dylai defnyddwyr fod yn ymwybodol bod risgiau ynghlwm â rhai gweithgareddau ar-lein:-

- Gall darlledu manylion personol neu breifat dros y rhwydwaith arwain at dderbyn e-byst/negeseuon na ofynnwyd amdano.
- Yn aml, cynhelir gweithrediadau ariannol ar-lein drwy gyfrwng cysylltedd diogel. Fodd bynnag, ni ellir dal Llyfrgelloedd Gwynedd na Chyngor Gwynedd yn gyfrifol am unrhyw golledion a dioddefir yn sgil anfon gwybodaeth ariannol gyfrinachol drwy'r rhyngwyd.

7. Gwahardd Mynediad at Gyfrifiaduron ar Sail Diogelwch

Gwaherddir mynediad at y cyfrifiaduron cyhoeddus mewn rhai achosion neilltuol.

- Os ceir gwybodaeth gan yr Heddlu neu sefydliad priodol arall bod cyfyngiadau ar unigolion i ddefnyddio cyfrifadur, yna bydd y llyfrgell yn gwrthod hawl mynediad at y cyfrifiaduron cyhoeddus ac yn gosod gwaharddiad ar gyfrif yr unigolyn, fel nad oes modd cael mynediad. Bydd y gwaharddiad hwn yn weithredol ar draws system LMS gogledd Cymru (awdurdodau Llyfrgelloedd Gwynedd, Ynys Mon, Conwy, Dinbych, Sir Y Fflint a Wrecsam) a dim ond yr awdurdod a osodwyd y gwaharddiad gwreiddiol a all ei ddiddymu.

- Os bydd defnyddiwr yn breswyl mewn Lleoliad Cymeradwy sy'n delio a throreddwyr rhyw bydd yn rhaid cael llythyr gan y sefydliad hwnnw yn y lle cyntaf yn datgan yr hawl i'r unigolyn hwnnw gael mynediad i gyfrifiaduron y llyfrgell.

8. Cosbau am Gamddefnydd

Mi fydd staff llyfrgell yn cymell defnyddwyr cyfrifiaduron i ddileu delweddau anaddas oddi ar y sgrin os, yn nhŷb yr aelod staff, bod y ddelwedd neu'r testun yn cael ei arddangos mewn modd na all defnyddwyr eraill osgoi ei weld.

Mae Llyfrgelloedd Gwynedd yn gwarchod yr hawl i wrthod mynediad pellach i unrhyw ddefnyddiwr sy'n caffael mynediad i, neu ddothbarthu, deunydd a all fod yn anghyfreithlon, annerbyniol, neu gyda'r potensial i dramgwyddo yn erbyn eraill, neu eu cynhyrfu.

Bydd staff llyfrgell ar y safle yn penderfynu os yw unrhyw weithred gyfrifiadurol yn annerbyniol, a bydd y penderfyniad yma yn ddarostyngedig i gadarnhad gan uwch-swyddog o'r Gwasanaeth Llyfrgell.

Yn ogystal â cholli'r hawl i ddefnyddio'r cyfrifiaduron, gellir cymhwyso opsiynau disgyblu eraill y Cyngor, gan gynnwys erlyniad troseddol.

Yn achos defnyddiwr iau sy'n tramgwyddo'r Polisi Defnydd Derbyniol hwn, rhoddir gwybod i'r rhiant neu'r gofalwr a arwyddodd y ffurflen ganiatâd.

Mae gan y Llyfrgelloedd Gwynedd yr hawl i ymchwilio i natur sesiynau unigolion os oes unrhyw amheuaeth o gamddefnydd, neu ar gais yr Heddlu.

Os darganfyddir fod camddefnydd o'r cyfrifiaduron wedi digwydd, yna bydd Rheolwr Llyfrgelloedd Gwynedd yn penderfynu ar hyd y gwaharddiad, ac fe all arwain at ymchwiliad pellach gan yr Heddlu.

Mae gwaharddiad sy'n deillio o gamddefnydd o'r cyfrifiaduron cyhoeddus yn golygu y gall y defnyddiwr gael ei wahardd rhag defnyddio unrhyw gyfrifiadur o fewn system LMS gogledd Cymru (awdurdodau Llyfrgelloedd Gwynedd, Ynys Mon, Conwy, Dinbych, Sir Y Fflint a Wrecsam) am gyfnod penodol a dim ond yr awdurdod a osodwyd y gwaharddiad gwreiddiol all ei ddiddymu.

Bydd Rheolwr Llyfrgelloedd Gwynedd yn gwahardd defnyddiwr am isafswm o 1 mis. Gall tramgwyddo pellach arwain at waharddiad o 3 mis, ac yna gwaharddiad amhenodol. Bydd

gwybodaeth am unrhyw waharddiadau defnyddwyr yn aros ar ffeil am gyfnod o 3 blynedd er y gwaharddiad diwethaf.

Adolygwyd y Polisi 02/2018